| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR BLYNYDDOL** |
| **DYDDIAD** | **12 MAI, 2011** |
| **PWRPAS** | **Ymateb i Rybudd o Gynnig** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Rheoleiddio** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd W Gareth Roberts** |

**Ymateb i Rybudd o Gynnig**

Yn 2007 cymerodd Cyngor Gwynedd y cyfrifoldeb statudol am orfodaeth parcio o fewn y Sir. Fel rhan o'r trafodaethau ac arweiniad at hyn bu i waith dechreuol gael ei wneud ar rinweddau cynlluniau parcio i drigolion.

Wedi i'r trefniadau newydd sefydlogi a derbyn sylwadau pellach gan aelodau penderfynodd y Pwyllgor Craffu Amgylchedd sefydlu gweithgor. Un o'r tasgau a roddwyd i'r Gweithgor oedd craffu trefniadau ar gyfer cynlluniau peilot ar gyfer parcio i drigolion.

Bu i'r Gweithgor gytuno ar ardaloedd i'w hystyried ac ar sail achos busnes oedd yn cynnwys ystyriaeth o brisiau'r tocynnau parcio. Cyflwynwyd adroddiad yn crynhoi eu canfyddiadau a'u hargymhellion i Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd ar 1af Hydref 2009.

Un o egwyddorion sylfaenol y cynllun a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu oedd bod rhaid i'r cynlluniau fod yn ariannol hunangynhaliol. I geisio cyflawni hyn, gosodwyd cost y tocynnau yn £50 am y cerbyd cyntaf a £80 am yr ail gerbyd (os oes gofod) yn y lle cyntaf. Roedd y Pwyllgor yn derbyn y byddai'r cynlluniau yn gweithredu ar golled dros y cyfnod peilot ac er na fyddai hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir, bod hyn yn bris werth ei dalu yn y tymor byr i brofi'r model a fabwysiadwyd.

Ar sail y gost a bennwyd, rhagwelwyd y byddai cynllun mawr e.e. ardal Hirael y cymryd rhwng 4 a 5 mlynedd i ddod yn hunan gynhaliol a chynlluniau bach megis Ffordd Aran, Dolgellau yn cymryd 10 mlynedd i ddod yn hunan gynhaliol. O gydlynu rheolaeth a gweinyddiaeth y cynlluniau bach gyda'r cynlluniau mwy gellid byrhau'r cyfnod ad-dalu. Mae methiant i gael cefnogaeth i sefydlu cynlluniau mwy yn golygu nad yw'r opsiwn hwn ar gael i'r Cyngor ar hyn o bryd.

O'r cynlluniau a ystyriwyd hyd yma, mae'r cymunedau lleol wedi cefnogi cynlluniau yn Aran Rd/Springfield Street, Dolgellau ac yn Ffordd Yr Ala Isaf/Ala Uchaf, Pwllheli. Mae cynlluniau yn Hirael, Bangor ac yn William Street a Twthil, Caernarfon wedi eu gwrthod. Gwrthodwyd y cynlluniau ar sail nifer o resymau, yn cynnwys diffyg diddordeb yn y cynllun, nad yw'r cynllun yn gwarantu gofod parcio tu allan y tŷ, angen gorfodaeth trwy'r dydd ac wrth gwrs costau'r tocynnau parcio. Er bod llawer o sylwadau ar rwystrau parcio wedi eu rhoi i gynghorwyr er ysgogi'r gwaith o ystyried cynllun parcio i drigolion, nid yw yn ymddangos bod y trigolion lleol yn ystyried bod ceisio canfod ateb i'r broblem yn cyfiawnhau buddsoddiad o £50 y flwyddyn. Mae rhai trigolion wedi mynegi mae dymuniad yn hytrach na gwir angen am reoli parcio yn y strydoedd dan sylw sydd wedi gyrru yr ymholiadau dechreuol.

Pe byddai'r Cyngor yn dymuno sefydlu cynlluniau ar gost is, yna byddai rhaid canfod yr adnoddau ar gyfer y buddsoddiad dechreuol o gyllidebau rheoli a chynnal presennol ynghyd a chanfod symiau refeniw blynyddol i'w rhedeg. Ar gynllun mawr

fel Hirael, ac ar sail prisiau 2009, byddai angen buddsoddiad unwaith ac am byth o tua £21k yn y lle cyntaf a tua £13k y flwyddyn i'w weinyddu wedi hynny. Byddai'r gost o ddarparu gweinyddiaeth trwy yr Uned Parcio a'r Ganolfan Gyswllt yn ychwanegol i hyn ar gyfer pob cynllun unigol gyda'r gost ddechreuol yn amrywio o ardal i ardal ar sail maint a chymhlethdod y gorchmynion, arwyddion a gwelliannau stryd angenrheidiol.

Bydd yr Adran yn monitro llwyddiant y cynlluniau sydd yn eu lle gyda yr aelodau a'r trigolion lleol ac 'rydym yn parhau i weithio gyda aelodau i geisio adnabod ardaloedd eraill lle gallia cynlluniau parcio i drigolion fod o fudd o ran rheoli traffic a parcio yn effeithiol.